# Llwybr Sgwd Melincwrt
# Melincourt Falls Trail

LLWYBR TRAIL 11



Sgwd Melincwrt/ Melincourt Falls

| | DECHRAU START | Tir dan draed Terrain | Y Ffactor Waw Wow Factor | Torfeydd Crowds | Amser Time | Pellter Distance |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LLWYBR TRAIL 11 | Maes parcio cyhoeddus<br>Cyfeirnod grid: SN 821019<br>Cod Post: SA11 4EE<br>Public car park, Grid reference: SN 821019<br>Postcode: SA11 4EE | 1 | 3 | 1 | 30 munud/ minutes | 0.7 milltir/ miles (1.2 km) |

**Mae Sgwd Melincwrt yn llechu mewn ceunant serth sy'n gyforiog o redyn a hen goed derw, ac mae'n creu golygfa ysgubol wrth ddisgyn 23m/80troedfedd i'r creigiau islaw.**

Rheolir y warchodfa natur lydanddail hon gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, ac mae'n cynnig taith gerdded fer at raeadr syfrdanol.

**Nestled in a steep sided gorge rich in ferns and ancient oak trees, Melincourt Falls is an impressive sight tumbling 23m/80ft onto the rocks below.**

This broadleaved nature reserve is managed by the Wildlife Trust of South and West Wales and offers a short walk to a spectacular waterfall.




Mae'r llwybr yn dechrau ar ochr arall y ffordd o'r maes parcio cyhoeddus, ac mae'r llwybr yn mynd am i fyny ychydig drwy goedwig dderw sy'n llawn o glychau'r gog a llysiau'r swynwyr.

Os oes gennych lygad graff, efallai y gwelwch chi adar fel bronwen y dŵr, gwybedog brith a'r tingoch ar eich taith.

The trail entrance is the opposite side of the road from the public car park and follows a slightly uphill footpath through the oak woodland rich in bluebells and enchanters nightshade.

A keen eye may spot birdlife such as dippers, pied flycatchers and redstarts on the route.